Polisi Preifatrwydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Cyhoeddiadau'r Gair

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei gadw o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn eich preifatrwydd ac i sicrhau fod unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rannu yn cael ei storio'n ddiogel. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn parchu pawb sy'n cysylltu â ni. Yn unol â'n credoau Cristnogol, ein bwriad yw bod mor eglur ag sy'n bosibl ynglŷn â sut a pham rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gawn gennych. Os nad ydy'ch cwestiynau wedi eu hateb yn llawn yn y wybodaeth isod mae croeso i chi gysylltu â ni, drwy anfon e-bost gwybodaeth@ysgolsul.com

Mae ufuddhau i Ddeddf Diogelu Data 1998 wrth wraidd holl egwyddorion ein polisi preifatrwydd. Mae gennym hefyd bolisi Diogelu Data sy'n rheoli sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth y byddwn yn ei dderbyn gennych.

DATGANIAD DIOGELU DATA

Dyma ddatganiad Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair am ddiogelu data:
Mae cadw eich data yn ddiogel yn bwysig iawn i ni. Drwy ddarparu eich manylion personol rydych yn caniatáu i Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair gysylltu â chi naill ai ar sail yr hawl rydych wedi'i roi i ni neu ein Buddianau Cyfreithlon yn unol â'r rheolau diogelu data presennol. Ni fyddwn fyth yn rhannu eich data personol gydag unigolion na sefydliadau allanol i ddibenion marchnata.

(Buddianau Cyfreithlon: Cysylltwn gydag ysgolion ac ysgolion Sul a sefydliadau Cristnogol yn achlysurol gan ein bod yn paratoi adnoddau ar eu cyfer e.e. gwersi ysgol Sul, gwasanaethau, oedfaon ac adnoddau ar gyfer Ysgolion Sul. Bydd dolen dad-danysgrifio ar waelod unrhyw un o'n negeseuon.)

SUT BYDDWN YN CASGLU GWYBODAETH AMDANOCH

Byddwn yn casglu gwybodaeth bob tro y byddwch yn cysylltu â ni. Er enghraifft pan fyddwch yn cyfrannu, gwneud cais am adnoddau, rhoi eich manylion i rywun sy'n siarad ar ran Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair mewn digwyddiad neu pan fyddwch yn anfon e-bost atom. Nid yw Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair yn derbyn na chadw unrhyw fanylion cardiau credyd pan dderbynnir cyfraniad neu daliad drwy ein gwefan.

PAM YDYN NI'N CADW GWYBODAETH AMDANOCH?

Rydym yn cadw gwybodaeth amdanoch am y rhesymau canlynol:
• I ddarparu gwybodaeth am ein gwaith gan gynnwys postiadau am ddigwyddiadau ac adnoddau ac i ddefnyddio'r wybodaeth ar sail eich lleoliad a diddordebau.
• I ofyn am gefnogaeth ariannol a chefnogaeth arall, fel gweddi.
• I brosesu cyfraniadau y byddwn yn eu derbyn gennych a sicrhau eu bod wedi'u cofnodi'n gywir.
• I gadw cofnod o'ch perthynas â ni. Pa ymholiadau neu gwynion wnaed gennych, a pha adnoddau rydych wedi'u harchebu..
• I addasu'r wybodaeth ac apeliadau y byddwn yn eu hanfon atoch i sicrhau ein bod yn gost-effeithiol a dim ond yn anfon yr wybodaeth sy'n addas i chi.
• I wella eich profiad o'n gwefannau. Pan fyddwch yn nodi eich dewisiadau drwy eich defnydd o'n gwefan fe allwn ni o bosib ddefnyddio'r wybodaeth i bersonoli'r safle i ateb eich anghenion yn well.

Darparu manylion cyfredol i ni allu cysylltu â chi.
Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ein hysbysu o unrhyw newid yn eich manylion cyswllt fel ein bod yn gallu cadw ein cofnodion yn gyfredol.
Gallwch newid y dull o gysylltu â chi neu'r math o wybodaeth y byddwn yn ei anfon atoch ar unrhyw bryd drwy gysylltu â ni drwy'r post, dros y ffôn neu drwy e-bost gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Gallwch ddad-danysgrifio o'n e-byst ar unrhyw bryd os mynnwch.

PWY SY'N GWELD EICH GWYBODAETH

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei ddarparu yn cael ei ddefnyddio'n unig gan swyddogion a gyflogir gan Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair. Nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw fudiadau ac/neu unigolion heb ganiatâd penodol*. (Noder y wybodaeth isod am MailChimp)

EIN DEFNYDD O'CH GWYBODAETH

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych i Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth i chi am ein gwaith, gan gynnwys postiadau am ddigwyddiadau, adnoddau, codi arian a gwasanaethau a gweithgareddau eraill y sonnir amdanynt ar ein gwefannau.
Drwy ddarparu gwybodaeth rydych yn cydsynio i dderbyn postiadau sy'n sôn am waith Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair.
*Mae Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair yn defnyddio MailChimp i anfon allan negeseuon e-bost ac adnoddau. Drwy ddarparu eich gwybodaeth rydych yn rhoi caniatâd i Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair drosglwyddo eich data i MailChimp. Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth yma i ni, yna, ni fydd modd i ni anfon yr adnoddau atoch. Bob tro y byddwch yn derbyn e-bost neu adnoddau gennym bydd modd i chi ddiweddaru eich dewisiadau a thanysgrifio neu stopio tanysgrifio o adnoddau cyson anfonir drwy MailChimp. Rydym yn casglu ystadegau ynghylch agor e-bost a chliciau gan ddefnyddio technolegau safonol y diwydiant i'n helpu i fonitro a gwella ein e-gylchlythyr. Am ragor o wybodaeth, ewch i rybudd preifatrwydd MailChimp.

Mae'n bosib y bydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair yn gwirio'r manylion personol sydd gennym amdanoch ac ychwanegu gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn creu proffil o ddiddordebau, dewisiadau a'r potensial o gyfraniadau fel ein bod yn cysylltu â chi yn y ffordd fwyaf addas a chyda'r wybodaeth fwyaf perthnasol.

Am ba hyd ydym ni'n cadw eich gwybodaeth?
Mae'r cyfnod y byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddwyd i ni gennych yn dibynnu ar gyd-destun y sefyllfa ble rhoddwyd y manylion i ni. Byddwn ni'n cadw'n unig yr wybodaeth sydd arnom ei angen i ddarparu manylion am yr adnoddau archebwyd gennych ac ar gyfer dibenion ystadegol.

GWELD YR WYBODAETH YR YDYM YN EI DDAL AMDANOCH

Gallwch wneud cais i weld y wybodaeth y mae Cyngor Ysgolion Sul Cymru / Cyhoeddiadau'r Gair yn ei ddal amdanoch drwy gysylltu â ni drwy ebost: gwybodaeth@ysgolsul.com

Gallwch ddad-danysgrifio o'n postiadau cyffredinol ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos trwy glicio ar y ddolen dad-danysgrifio ar waelod unrhyw un o'n negeseuon e-bost neu drwy e-bostio gwybodaeth@ysgolsul.com

Dolenni i Wefannau eraill e.e. Youtube, Facebook, Twitter. Nid yw'r rhybudd preifatrwydd hwn yn cynnwys dolenni o fewn y wefan hon sy'n cysylltu â gwefannau eraill. Ni chaiff y safleoedd hynny eu llywodraethu gan ein Polisi Preifatrwydd ni, ac os oes gennych gwestiynau ynghylch sut mae gwefan arall yn defnyddio'ch gwybodaeth, bydd angen i chi edrych ar ddatganiad preifatrwydd y safle hwnnw.

CWCIS

Rydym yn defnyddio cwcis i'n galluogi i weld a dadansoddi sut mae'r rhai sy'n ymweld â'n gwefannau yn eu defnyddio a pha dudalennau maen nhw'n edrych arnynt. Mae hyn yn ein galluogi i addasu a phersonoli'r cynnwys ar ein gwefannau. Mae cwcis yn cyflymu'r rhyngweithio rhwng y defnyddwyr a'n gwefannau. Heb cwcis byddai'n anodd iawn i ymwelydd gofio dewisiadau'r defnyddiwr ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.

Rydym yn defnyddio gwefannau fel Vimeo ac YouTube i fewnosod fideos ar ein gwefannau ac fe allech dderbyn cwcis ganddyn nhw drwy ein gwefan ni. Rydym hefyd yn defnyddio cyflenwyr trydydd person fel Facebook a Google Analytics ac fe allai'r cyflenwyr hyn ddefnyddio cwcis hefyd. Gan fod rhai o'r gwasanaethau trydydd person hyn yn sefyll tu allan i'r DU a'r UE mae'n bosib na fyddan nhw yn disgyn dan adain awdurdod llysoedd y DU.

BETH YDY CWCI?

Fel llawer o wefannau, rydym yn defnyddio cwcis i roi gwell gwasanaeth i chi. Mae cwcis yn ddarnau bach o wybodaeth a anfonir gan serfiwr gwe i borwr gwe sy'n galluogi'r serfiwr i gasglu gwybodaeth gan y porwr. Fe'u defnyddir yn eang er mwyn rhoi gwell gwasanaeth i chi, i wneud y wybodaeth a arddangosir yn fwy personol i chi, i gyflymu'r broses chwilio ac i'ch adnabod pan fyddwch yn dychwelyd i'r wefan.